18-Jun-08

canolfanbydgwaith

# Gwaith a Ganiateir

Stamp y swyddfa

Rhan o'r Adran Gwaith a Phensiynau

**Ein rhif ffôn uniongyrchol yw**

Cod Rhif

**Dylai defnyddwyr ffôn testun sydd ag anawsterau gyda'u lleferydd neu eu clyw ffonio**

Cod Rhif

**Os byddwch yn cysylltu â ni, nodwch y rhif cyfeirnod hwn**

**Dyddiad**

/ /

## Sôn wrthym am y gwaith â thâl yr hoffech ei wneud

Os ydych yn cael
- Budd-dal Analluogrwydd
- Lwfans Anabledd Difrifol
- Credydau Yswiriant Gwladol
- Cymhorthdal Incwm

yna cwblhewch y ffurflen hon i ddweud wrthym am unrhyw waith â thâl rydych yn ei ddechrau neu wedi ei ddechrau.

Defnyddiwch y ffurflen hon ar gyfer eich cyfnod cyntaf o waith, neu unrhyw gyfnodau o waith ar ôl hynny.

### Os oes angen help arnoch i lenwi'r ffurflen hon

Os oes angen help arnoch i lenwi'r ffurflen hon, gallwch un ai ofyn i rywun arall ei llenwi ar eich rhan, neu gysylltu â'r swyddfa sy'n gweinyddu'ch budd–dal.

### Os ydych eisoes yn gweithio

Anfonwch y ffurflen hon i'r swyddfa sy'n delio â'ch budd-dal yn syth er mwyn cadarnhau bod y gwaith o fewn y terfynau a ganiateir.

### Ynglŷn â gwaith a ganiateir

Mae'r rheolau ar gyfer gwaith a ganiateir yn eich caniatáu i

- weithio am lai nag 16 awr yr wythnos, ar gyfartaledd, ac ennill dim mwy na £ yr wythnos am 52 wythnos, **neu**
- gweithio am lai nag 16 awr yr wythnos, ar gyfartaledd, ac ennill hyd at £ yr wythnos cyn belled â bod eich salwch neu anabledd yn cael ei ystyried yn ddigon difrifol eich bod yn cwrdd â'r trothwy analluogrwydd heb gael asesiad meddygol, **neu**

# Sôn wrthym am y gwaith â thâl yr hoffech ei wneud parhad

- gweithio ac ennill dim mwy na £20 yr wythnos ar unrhyw adeg, cyhyd ag y byddwch yn cael y budd-dal, **neu**
- gwneud gwaith a ganiateir dan oruchwyliaeth ac ennill dim mwy na £ yr wythnos cyhyd ag y byddwch yn cael y budd-dal.

Mae *gwaith a ganiateir* yn golygu gwaith sy'n cael ei oruchwylio gan weithiwr awdurdod cyhoeddus neu leol, neu sefydliad gwirfoddol sy'n gyfrifol am drefnu gwaith ar gyfer pobl anabl. Gallai fod yn waith yn y gymuned neu mewn gweithdy dan warchod. Mae hefyd yn cynnwys gwaith fel rhan o raglen driniaeth mewn ysbyty.

## Sut allai eich enillion effeithio ar eich budd-dal

Ni fydd gwaith a ganiateir yn effeithio ar eich Budd-dal Analluogrwydd, eich Lwfans Anabledd Difrifol na'ch hawl i gredydau Yswiriant Gwladol. Os bydd eich enillion yn fwy na'ch anwybyddiad enillion, bydd yn effeithio ar eich Cymhorthdal Incwm, Budd-dal Tai neu Budd-dal Treth Cyngor. Mae anwybyddiad enillion yn golygu rhan o'ch incwm rydym yn cyfrif pan fyddwn yn cyfrifo eich budd-dal. Am ragor o wybodaeth am sut mae enillion yn effeithio ar eich budd-dal, dylech ofyn wrth y swyddfa sy'n delio gyda'ch budd-dal.

Os byddwch yn dechrau gwaith a ganiateir, efallai bydd angen i chi talu treth ar eich incwm ychwanegol. Byddwn yn gadael i Gyllid & Thollau EM wybod pryd mae eich gwaith a ganiateir yn cael ei gytuno, fel y gallent gyfrifo unrhyw dreth sy'n ddyledus a threfnu, cyn belled â phosibl, eich bod yn talu y swm cywir o dreth yn ystod y flwyddyn.

## Profion meddygol

Nid oes rhaid i chi gael caniatâd oddi wrth eich meddyg er mwyn gwneud gwaith a ganiateir. Nid oes rhaid i chi gael prawf meddygol oherwydd eich bod yn dechrau gwneud gwaith a ganiateir. Ond dylech barhau i fynychu unrhyw brawf meddygol sydd wedi cael ei drefnu fel rhan o'r amodau arferol ar gyfer cael budd-dal. Gallai peidio â mynychu prawf meddygol o'r fath olygu y gallai eich budd-dal ddod i ben.

## Mwy o wybodaeth

Os hoffech wybod mwy am waith a ganiateir, cysylltwch ag adran Budd-dal Analluogrwydd y swyddfa sy'n gweinyddu'ch budd-dal.

Am fwy o wybodaeth am y gwasanaeth Brocer Swyddi, gallwch cysylltu â'r Fargen Newydd ar gyfer Pobl Anabl ar **0800 137 177**. Mae'r llinellau ar agor rhwng 7.00am ac 11.00pm. Os oes gennych anawsterau lleferydd neu nam ar eu clyw, gallwch gysylltu â hwy ar **0800 435 550**. Neu gallwch ymweld â'n gwefan. Y cyfeiriad yw **www.canolfanbydgwaith.gov.uk**

Am wybodaeth gyffredinol ffoniwch y Llinell Ymholiadau Budd-dal ar gyfer pobl sydd ag anableddau. Mae'r alwad ffôn am ddim. Y rhif yw **0800 88 22 00**. Bydd y person sy'n ymdrin â'ch galwad yn gallu rhoi cyngor cyffredinol i chi am eich budd-dal ac yn dweud wrthych am y gwasanaeth cwblhau ffurflenni. Gallant hefyd eich cyfeirio at sefydliadau eraill a fydd efallai yn gallu eich helpu.

Os ydych yn cael anhawster i siarad neu glywed ac yn defnyddio ffôn testun, deialwch **0800 243 355**. Mae'r alwad ffôn am ddim.Os nad oes gennych eich system ffôn testun eich hunan, gallech ddod o hyd i un yn eich llyfrgell lleol neu Canolfan Cyngor ar Bopeth.

# Eich ateb

Mae pum rhan i'r ffurflen hon. Mae'n rhaid i bawb lenwi **Rhannau 1, 2** a **5**.

Os ydych yn sôn am waith a ganiateir dan oruchwyliaeth, mae'n rhaid i'ch gweithiwr cefnogi neu'r person sy'n goruchwylio ac yn cefnogi'ch gwaith lenwi **Rhan 3** o'r ffurflen hon.

## Rhan 1 **Ynglŷn â chi**

**Cyfenw neu enw teuluol** Mr/Mrs/Miss/Ms

**Enwau eraill yr ydych yn eu defnyddio ar hyn o bryd** – yn llawn

**Cyfeiriad**

Cod post

**Rhif ffôn yn ystod y dydd,** os oes un gennych Cod Rhif

**Beth yw'r rhif?** Ticiwch y blwch perthnasol

Gartref ☐ Ffôn testun ☐ Ffôn symudol ☐ Gwaith ☐ Ffacs ☐

**Dyddiad geni** / /

**Rhif Yswiriant Gwladol (YG)** os oes gennych un

Llythrennau Rhifau Llythyren

# Eich ateb parhad

## Rhan 2 **Ynglŷn â'r gwaith rydych yn ei ddechrau neu wedi ei ddechrau**

**A yw'ch gwaith yn hunangyflogedig?**
Na ☐
Ydy ☐

**Enw a chyfeiriad y cyflogwr neu'r cwmni**

Cod post

**Teitl y swydd**

**Disgrifiwch eich dyletswyddau'n fras**

**Pa ddydiad fydd y gwaith yn dechrau?**
Rhowch wybod i ni os yw'r dyddiad hwn yn newid

/ /

**Faint fyddwch yn ei ennill?**
Ticiwch y blwch perthnasol

£ Wythnosol ☐ Misol ☐

**Faint o oriau'r wythnos fyddwch chi yn gweithio?**

awr yr wythnos

**Os bydd yr oriau yn amrywio, rhowch cyn gymaint o wybodaeth ag sy'n bosibl am eich patrwm gweithio**

**Pryd byddwch yn cael eich taliad cyntaf?**

/ /

**Ydych chi'n anfon eich slip cyntaf gyda'r ffurflen hom?**
Na ☐
Ydw ☐

# Eich ateb parhad

## Rhan 3 Ynglŷn â’r sefydliad a fydd yn cefnogi ac yn goruchwylio’ch gwaith yn gyson

Os hoffech wneud gwaith a ganiateir dan oruchwyliaeth, y mae’n rhaid i’ch gweithiwr cefnogi proffesiynol lenwi’r rhan hon. Rhywun sy’n gweithio i gorff cyhoeddus neu sefydliad gwirfoddol ac yn trefnu gwaith ar gyfer pobl anabl yw gweithiwr cefnogi proffesiynol.

Mae'n rhaid i'r gweithiwr cefnogi oruchwylio a chefnogi’r gwaith yr ydych yn sôn amdano’n gyson ac yn rheolaidd.

**Enw’r gweithiwr cefnogi** Mr/Mrs/Miss/Ms

**Enwau eraill**

**Cyfeiriad swyddogol**

Cod post

**Stamp y sefydliad**

**Rhif ffôn yn ystod y dydd** Cod Rhif

### Datganiad y gweithiwr cefnogi

Drwy gwblhau Rhan 3 **rwy’n cadarnhau** y bydd fy sefydliad yn cefnogi a goruchwylio’r gwaith hwn yn gyson a rheolaidd.

**Llofnod y gweithiwr cefnogi**

**Dyddiad** / /

# Eich ateb parhad

## Rhan 4 **Beth i'w wneud nawr**

- Gwnewch yn siwr
  - eich bod wedi ateb yr holl gwestiynau sy’n berthnasol i chi yn **Rhannau 1** a **2** o’r ffurflen hon
  - a’ch bod wedi llofnodi a dyddio **Datganiad** yn **Rhan 5**.
- Os hoffech wneud gwaith a ganiateir dan oruchwyliaeth, gwnewch yn siwr bod eich gweithiwr cefnogi wedi llenwi a llofnodi **Rhan 3** o’r ffurflen hon.
- Anfonwch y ffurflen hon i’r swyddfa sy’n delio â’ch budd-dal yn syth.

## Rhan 5 **Datganiad**

**Rwyf yn datgan** fod y wybodaeth a roddwyd gennyf ar y ffurflen hon yn gywir a chyflawn hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred.

**Deallaf** os byddaf yn rhoi gwybodaeth sy’n anghywir neu’n anghyflawn yn fwriadol, y gellir dwyn achos neu gamau eraill yn fy erbyn.

**Deallaf** y gall yr Adran ddefnyddio’r wybodaeth sydd ganddi ar hyn o bryd neu y gallai ei derbyn yn y dyfodol er mwyn penderfynu a oes gennyf hawl i gael

- y budd-dal yr wyf yn ei hawlio
- unrhyw fudd-dal arall yr wyf wedi’i hawlio
- unrhyw fudd-dal arall y byddaf yn ei hawlio yn y dyfodol.

**Eich llofnod**

**Dyddiad** / /